Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (y cyfeirir ato yn yr hysbysiad hwn fel "CICAB", "rydym", "ni" neu "ein") yn trin eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd o ddifrif. Rydym yn cydymffurfio â phob agwedd o fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU ei hun.

Wrth fynd ati i gyflawni ein swyddogaethau statudol, sy'n cynnwys craffu gwasanaethau iechyd yn ein hardal, ymgysylltu â chyrff GIG o ran cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd yn ein hardal, a darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i'r cyhoedd, mae'n bosib byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol. Rydym wedi paratoi'r hysbysiad preifatrwydd hwn er mwyn bod mor dryloyw â phosib am yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei gasglu a'i ddefnyddio.

A yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi?

Ysgrifennwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn er budd y categorïau canlynol o bobl (y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwn fel "chi"):

- Ein haelodau
- Cleientiaid eiriolaeth a phobl sy'n eu cynrychioli, neu'n mynd gyda nhw'n gwmni;

- Teulu a ffrindiau cleientiaid eiriolaeth, os ydynt wedi darparu unrhyw wybodaeth yn ystod y broses eiriolaeth;
- Unrhyw un arall a enwir yng nghofnodion y gwasanaeth eirioli, er enghraifft gweithwyr gofal iechyd proffesiynol;
- Achwynyddion sydd wedi gwneud cwyn yn ein herbyn;
- Pobl sy'n derbyn diweddariadau, gwybodaeth neu wahoddiadau i'n digwyddiadau ni, a'r rheiny sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath;
- Pobl sy'n ymweld â'n gwefan ni;
- Ein rhanddeiliaid, grwpiau diddordeb a chysylltiadau eraill, ynghyd â phobl sy'n gweithio iddyn nhw;
- Unigolion eraill sy'n cysylltu â ni am wybodaeth;
- Cyflenwyr yr ydym yn eu defnyddio;
- Ein hyswirwyr, archwilwyr a chynghorwyr proffesiynol; a
- Llywodraeth Cymru, y GIG neu gyrff cyhoeddus eraill, a'r rheiny sy'n gweithio iddyn nhw.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i bobl sy'n gweithio i ni ar hyn o bryd, sydd wedi gweithio i ni, neu sydd â diddordeb mewn gweithio i ni. Rydym wedi ysgrifennu hysbysiad preifatrwydd ar wahân ar gyfer y grŵp hwn.

Os credwch ein bod yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ond nid ydych wedi'ch cynnwys yn y rhestr uchod, yna cysylltwch â ni i drafod hyn, os gwelwch yn dda.

Pa wybodaeth sydd yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn?

Gofynnwn i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ofalus, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch:

- yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei gasglu a'i ddefnyddio;
  - y seiliau cyfreithlon yr ydym yn dibynnu arnynt i'w gasglu a'i ddefnyddio;
- pam ein bod ni'n casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol;
- o ble yr ydym yn casglu'r wybodaeth bersonol;
- gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth bersonol;
- pan ein bod ni'n trosglwyddo gwybodaeth bersonol tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA);
- am ba hyd yr ydym yn cadw gwybodaeth, a sut yr ydym yn sicrhau ei fod yn ddiogel;
- eich hawliau preifatrwydd.

Dylech chi sicrhau eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd cyffredinol hwn ar y cyd gydag unrhyw hysbysiad preifatrwydd penodol y gallwn ei roi i chi, o dro i dro, mewn perthynas â'ch gwybodaeth chi.

Rheolydd Data

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw gan CIC fel Rheolydd Data, neu gan CIC a'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ("y Bwrdd") weithiau, fel cyd reolyddion. Rydym wedi penodi Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth benodol (SLlG) i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'n gweithgareddau prosesu data. Y SLlG yw Clare Starmore yw'r Rheolwr Busnes. Gall y SLlG, a arweinir gan y Swyddog Diogelu Data (SDD),

Jemma McHale, y Prif Swyddog, roi unrhyw eglurder a all fod gennych ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Manylion cyswllt isod:

.

Claire Starmore
Rheolwr Fusnes
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Raglan
6-8 Clôs William Brown
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbran NP44 3AB
Ffôn: 01633 833 516
Ebost: claire.starmore@wales.nhs.uk

Categorïau Gwybodaeth Bersonol a gedwir gennym

Mae'r wybodaeth bersonol a gasglir gennym yn cynnwys:

- gwybodaeth sylfaenol, megis eich enw (gan gynnwys teitl), y cwmni rydych chi'n gweithio iddo, eich teitl neu swydd a'ch perthynas â pherson.
- manylion cyswllt, megis eich cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif(au) ffôn.
- gwybodaeth adnabod a gwybodaeth gefndir a roddwyd gennych. Gall hyn gynnwys dyddiad geni, cenedligrwydd a chyfeiriadau blaenorol.
- lle eich bod yn gleient eiriolaeth, byddwn yn casglu gwybodaeth am yr amgylchiadau sydd wedi eich arwain i ddymuno defnyddio ein gwasanaethau. Gall hyn gynnwys

data categori arbennig, lle ei fod yn berthnasol i'r mater rydym yn gweithio arno gyda chi. Byddwn yn cadw cofnodion o'ch cyswllt gyda ni hefyd.

- os ydych yn ymwneud ag un o'n materion eirioli, byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi sy'n berthnasol i'r mater. Gall hyn gynnwys data categori arbennig.
- os ydych yn aelod o CIC, mae'n bosib byddwn yn cadw cofnod o'ch presenoldeb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau eraill, neu eich cyfranogiad mewn gweithgareddau monitro neu weithgareddau eraill.
- gwybodaeth dechnegol a gasglwyd wrth i chi ymweld â'n gwefan, sianeli digidol, neu mewn perthynas â deunydd a negeseuon yr ydym yn eu hanfon atoch ar gyfrwng electronig, sy'n cynnwys gwybodaeth am y math o ddyfais rydych chi'n ei ddefnyddio, eich cyfeiriad IP a'ch lleoliad daearyddol, eich system weithredu a'i fersiwn, math y porwr, y cynnwys rydych chi'n ei weld a'r termau chwilio rydych chi'n eu mewnbynnu.
- gwybodaeth a rowch i ni at ddibenion mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau yr ydym yn eu cynnal, gan gynnwys gofynion mynediad a gofynion ymborthol.
- cofnodir y wybodaeth a rowch inni dros y ffôn ar gyfer monitro a hyfforddiant at ddibenion

Os fyddwn yn casglu neu'n derbyn eich gwybodaeth bersonol, yng nghyd-destun ein gwasanaethau, mae'n bosib byddwn yn derbyn gwybodaeth gan drydydd parti, megis eich perthnasau

neu bobl eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarparwn (e.e. darparwyr gofal iechyd). Bydd yr wybodaeth a gasglwn yn berthnasol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi, a gall gynnwys categorïau arbennig o ddata, lle mae'n gyfreithlon i ni ei brosesu.

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol
Rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithlon canlynol i brosesu eich gwybodaeth bersonol:

Budd y cyhoedd	Rydym yn gorff cyhoeddus ac yr ydym yn casglu a'n defnyddio peth gwybodaeth bersonol, lle ei bod yn angenrheidiol, i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd, neu sy'n angenrheidiol i'n swyddogaethau swyddogol ni, ac y mae sail gyfreithiol glir i'r dasg neu'r swyddogaeth.
Rhwymedigaeth gyfreithiol	Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gydymffurfio â'r cyfreithiau perthnasol a'r gofynion rheoleiddiol.

Buddiannau cyfreithlon	Mae'n bosib byddwn yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i hybu ein buddiannau cyfreithlon (cyn belled nad yw'r prosesu'n cael ei wneud wrth gwblhau ein tasgau fel awdurdod cyhoeddus). Dim ond pan fyddwn ni'n fodlon bod eich hawliau preifatrwydd wedi'u diogelu'n foddhaol y byddwn ni'n gwneud hyn. Mae gennych hawl i wrthwynebu i unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi i gael ei brosesu, yn
	seiliedig ar y sail gyfreithiol hon (gweler isod).
Sefydlu, arfer neu amddiffyn hawl gyfreithiol	Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol i'n galluogi ni i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawl gyfreithiol ein hunain, neu pan ein bod yn gweithio ar faterion ar ran ein cleientiaid neu'u cwsmeriaid.
Caniatâd	Mae'n bosib byddwn ni (ond nid oes fel arfer) angen eich caniatâd chi i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl drwy gysylltu â ni (gweler isod).

Perfformio contract	Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, er mwyn cymryd camau i wneud cytundeb gyda chi, neu i gyflawni ein rhwymedigaethau yn unol â chontract gyda chi.

Pam ein bod yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth at y dibenion canlynol, gan ddibynnu ar y seiliau cyfreithlon penodol a amlinellwyd yn y tabl isod:

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
I reoli a gweinyddu ein perthynas gyda'n cleientiaid eiriolaeth ac i ddarparu gwasanaethau cyngor iddynt.	Budd y cyhoedd
I ddarparu gwasanaeth eirioli a thrafod gyda thrydydd parti ar ran y cleientiaid wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.	Budd y cyhoedd

I ddelio â chwynion gan gleientiaid eiriolaeth, aelodau neu eraill.	Budd y cyhoedd
I reoli, gweinyddu a chadw cofnodion o'n perthynas gydag aelodau.	Rhwymedigaeth gyfreithiol Budd y cyhoedd
I ymgymryd â gwiriadau cefndir ar ddarpar aelodau, lle bo hynny'n briodol.	Rhwymedigaeth gyfreithiol Budd y cyhoedd
I adrodd i'r Bwrdd, Llywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill, lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny.	Rhwymedigaeth gyfreithiol Budd y cyhoedd
I drafod gyda'r Bwrdd, ein corff lletya neu'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaethau ar ein rhan.	Budd y cyhoedd
I sicrhau ein bod yn darparu	Budd y cyhoedd

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
safonau ardderchog o wasanaeth, trwy ein gwiriadau archwilio, adolygu a sicrwydd ansawdd, neu gan y rheiny a gynhelir gan archwilwyr, cynghorwyr proffesiynol neu gyrff ardystio.	Buddiannau cyfreithlon

I reoli a gweinyddu ein perthynas gyda chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i ni.	Perfformio contract Buddiannau cyfreithlon
I wneud a rheoli taliadau i gyflenwyr.	Perfformio contract Rhwymedigaeth gyfreithiol Buddiannau cyfreithlon
I gyflawni, fel arall, gweithredoedd beunyddiol ein sefydliad yn effeithlon, gan gynnwys rheoli ein sefyllfa ariannol, gallu, cynllunio, cyfathrebu, llywodraethiant corfforaethol ac archwilio.	Rhwymedigaeth gyfreithiol Budd y cyhoedd
I ymgymryd â gweithgareddau a gynlluniwyd i hybu a marchnata ein gwasanaethau, gan gynnwys anfon cylchlythyrau, diweddariadau, cynnal digwyddiadau a seminarau, a	Budd y cyhoedd Caniatâd (lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol)
Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
chadw cofnodion o'ch diddordebau yn y gweithgareddau yma.	

I hyfforddi a datblygu ein staff a'r bobl sy'n gweithio i ni.	Budd y cyhoedd Perfformio contract Rhwymedigaeth gyfreithiol
I atal ac ymateb i dwyll gwirioneddol, neu dwyll posib, neu weithgareddau anghyfreithlon.	Rhwymedigaeth gyfreithiol Budd y cyhoedd
I sefydlu, arfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol, neu at ddibenion achos cyfreithiol yr ydym yn rhan ohono, o bosib.	Sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol
Mewn argyfwng, gwybodaeth i atal niwed i chi neu berson arall.	Buddiannau hanfodol
I bennu anghenion mynediad o ran ymwelwyr i'n safle ni.	Rhwymedigaeth gyfreithiol

Hefyd, efallai byddwn yn coladu, prosesu a rhannu adroddiadau ystadegol, yn seiliedig ar gydgrynhoad gwybodaeth bersonol ddienw a ddelir gennym. Mae hyn yn ddefnyddiol am amrywiol resymau sefydliadol.

Gweithgareddau hyrwyddo

Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, a gynlluniwyd i hyrwyddo ein swyddogaethau a'n gwerthoedd, ac adeiladu ar gydberthnasau gyda rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb.

Tra ein bod eisiau eich gwneud chi'n gwbl ymwybodol o'r holl wasanaethau a gynigwn, rydym yn awyddus i sicrhau nad ydym yn gyfrifol am anfon deunydd diangen atoch. Felly, rydym yn gwneud ein gorau i deilwrio'r wybodaeth a'r gwahoddiadau a anfonwn atoch. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn storio gwybodaeth am eich diddordebau a'ch dewisiadau o ran cyfathrebu. Mae'n bosib hefyd byddwn yn olrhain lefel eich ymgysylltiad â ni.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol diogelu data yn cydnabod ei fod er ein buddiannau cyfreithlon ni i gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am y fath resymau. Nid ydym yn ystyried bod arnom angen eich caniatâd chi i wneud hyn yn gyfreithlon, ond mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi bod gennych hawl i wrthwynebu i hyn. Mae'r gyfraith hefyd yn ein galluogi ni i anfon negeseuon marchnata, trwy gyfrwng electronig, at ddefnyddwyr presennol ein gwasanaethau a'n cysylltiadau busnes, heb angen caniatâd. Unwaith eto, mae gennych hawl i wrthwynebu'r gweithgarwch hwn, os ydych yn dymuno.

Rydym o'r farn y gallwn gadw gwybodaeth at y dibenion yma, am gyfnod amhenodol, a pharhau i gyfathrebu gyda chi o dro i dro, nes ac oni bai i chi ofyn i ni i beidio â gwneud. Pan fyddwn yn anfon gwybodaeth atoch am y gwasanaethau a gynigwn, neu wahoddiadau i'n digwyddiadau ni, byddwn yn cynnwys opsiwn syml i "ddad-danysgrifio" bob amser. Os cewch chi unrhyw anhawster yn ei ddefnyddio, neu os ydych yn dymuno

cael gwybod mwy am y gweithgarwch hwn, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Ffynonellau gwybodaeth

Daw'r wybodaeth bersonol sydd gennym o amrywiol ffynonellau.

- eich bod yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni'n uniongyrchol, wrth i chi ymgysylltu â ni, gan gynnwys ar ein gwefannau neu gyfryngau digidol eraill.
- ein bod yn cael gwybodaeth ychwanegol wrth ymgymryd â gwiriadau, er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol, neu lle mae gwiriadau o'r fath er budd y cyhoedd.
- ein bod yn cael, ac yn cynhyrchu gwybodaeth bersonol wrth ddarparu gwasanaethau i chi neu, os nad ydych yn gleient eiriolaeth, i eraill.
- ein bod yn cael gwybodaeth bersonol gan y Bwrdd wrth ymateb i gwynion, neu geisio eu cyngor neu gymorth gyda'n swyddogaethau.
- ein bod yn cael manylion cyswllt a gwybodaeth arall gan ein cysylltiadau sefydliadol a'n cyflenwyr ni.
- ein bod yn casglu gwybodaeth gan ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd, megis llyfrau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd ac erthyglau newyddion.

Os ydych yn dymuno rhoi gwybodaeth bersonol i ni am berson arall, siaradwch â ni, os gwelwch yn dda, i sicrhau bod gennych

hawl cyfreithiol i roi'r wybodaeth i ni, neu am gyngor ar p'un ai bod angen i chi roi gwybod i'r person hwnnw.

Rhannu eich data personol

Mae'n bosib bydd gan ambell drydydd parti fynediad at eich gwybodaeth bersonol, neu efallai byddwn ni'n ei rannu gyda nhw, neu'n ei anfon atynt. Mae hyn yn cynnwys:

- cyflenwyr, y maent yn gaeth i rwymedigaethau cyfrinachedd, sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyngor proffesiynol, i'n helpu ni i redeg ein sefydliad.
- trydydd parti sy'n rhan o'r gwasanaethau a ddarparwn i gleientiaid eiriolaeth.
- y Bwrdd mewn cysylltiad â chwynion gan gleientiaid eiriolaeth, aelodau neu eraill.
- yn achos aelodau o'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru, lle bo angen i gyflawni ein swyddogaethau neu ofynion adrodd.
- trydydd parti sy'n rhan o'r broses eiriolaeth, megis Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG neu ddarparwyr gofal iechyd eraill.

Mae'n bosib hefyd bydd gofyn i ni rannu gwybodaeth bersonol gydag awdurdodau rheoleiddiol, asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn gwneud ymdrech deg i roi gwybod i chi, cyn i ni wneud hyn, oni bai y cawn ein cyfyngu'n gyfreithiol rhag gwneud hynny.

Nid ydym yn gwerthu, rhentu neu fel arall yn gwneud gwybodaeth bersonol ar gael yn fasnachol i unrhyw drydydd parti.

Trosglwyddo y Tu Allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)

Nid ydym yn anfon data personol y tu allan i'r EEA fel mater o drefn. Nid yw un o'r darparwyr gwasanaethau, yr ydym yn eu defnyddio i'n cynorthwyo i redeg ein busnesau, wedi'u lleol y tu allan i'r EEA.

Dewis peidio â rhoi gwybodaeth bersonol

Os fyddwch chi'n dewis peidio â rhoi data personol penodol i ni, dylech chi fod yn ymwybodol ei bod yn bosib na fyddwn yn medru perfformio rhai gwasanaethau, neu na fyddwn yn medru cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o ganlyniad . Er enghraifft, efallai na fyddwn yn medru delio â chwyn, oni bai eich bod yn rhoi gwybodaeth benodol i ni.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol

Ein polisi ni yw peidio â chadw gwybodaeth bersonol am fwy nag sy'n angenrheidiol. Mae gennym amserlenni cadw data sefydledig ar gyfer unrhyw wybodaeth bersonol a ddelir gennym, yn seiliedig ar pam mae angen yr wybodaeth arnom. Mae'r amserlenni'n ystyried unrhyw rwymedigaethau statudol neu reoleiddiol sydd gennym i gadw'r wybodaeth, ein gallu i amddiffyn hawliau cyfreithiol, ein buddiannau cyfreithlon, arfer gorau a'n galluoedd technegol presennol. Rydym wedi

datblygu Polisi Cadw Data, sy'n casglu'r wybodaeth yma. Rydym yn dileu neu'n dinistrio gwybodaeth bersonol mewn modd diogel, yn unol â'r Polisi Cadw Data.

Diogelwch

Yr ydym wedi'n hymrwymo'n gryf i ddiogelu gwybodaeth, ac rydym yn cymryd camau rhesymol ac addas i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol rhag mynediad heb awdurdod, colled, camddefnydd, altrad neu lygredigaeth. Yr ydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electroneg a rheolaethol yn eu lle, i ddiogelu ac amddiffyn yr wybodaeth yr ydych yn ei roi i ni, gan gynnwys y defnydd o amgyrptiad. Mae gennym Cyber Essentials Plus certification. Os ydych yn dymuno trafod diogelwch eich gwybodaeth, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Hawliau'r Unigolyn

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'ch data personol sydd gennym. Ni fydd yr holl hawliau'n gymwys ym mhob amgylchiad. Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau, yna cysylltwch â ni drwy un o'r ffyrdd a nodir isod:

- Mae gennych hawl i gael mynediad i'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei gadw amdanoch.

- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei ddal amdanoch, os credwch ei fod yn anghywir neu'n anghyflawn.

- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu o'ch gwybodaeth bersonol pan yr ydym yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon i wneud hynny, ac os credwch fod eich hawliau a'ch buddiannau'n bwysicach ac eich bod yn dymuno i ni roi'r gorau iddi. Gall fod, er hynny, resymau cyfreithiol neu resymau cyfreithlon eraill pam ein bod angen cadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os mai dyma yw'r achos, fe fyddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni i atal defnydd o'ch gwybodaeth bersonol wrth i ni ystyried eich cais.

- Mae gennych hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu eich data personol ar gyfer marchnata ein nodau a'n hamcanion. Os nad ydych eisiau derbyn negeseuon gennym fwyach, cysylltwch â ni. Fe wnawn roi'r gorau i yrru negeseuon atoch, ond byddwn yn parhau i gadw cofnod ohonoch a'ch cais i beidio clywed gennym. Pe byddwn yn dileu eich holl wybodaeth o'n cronfeydd data, ni fyddai gennym unrhyw gofnod o'r ffaith eich bod wedi gofyn i ni roi'r gorau i gysylltu gyda chi, a byddai'n bosib y byddech yn dechrau derbyn negeseuon gennym eto, rhyw dro yn y dyfodol, pe byddem yn cadw eich manylion o ffynhonnell arall.

- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth. Gall hyn gael ei adnabod fel yr hawl i gael eich anghofio, neu i ddilead. Ni fyddwn wastad yn cytuno i wneud hyn ym mhob achos, gan y gall fod rhesymau cyfreithlon neu gyflawn i bam ein bod angen cadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os mai dyma yw'r achos, byddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni atal y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol wrth i ni ystyried eich cais.

- Tra bod prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddibynnol ar eich caniatâd chi, mae gennych yr hawl i dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Cysylltwch â ni os mai dyma yw eich dymuniad.

- Mewn amgylchiadau cyfyngedig, fe all fod gennych yr hawl i gadw'r wybodaeth bersonol yr ydych wedi ei roi i ni mewn fformat a all gael ei ailddefnyddio'n hawdd, ac i ofyn i ni i basio'r wybodaeth bersonol hon ymlaen, yn yr un fformat, i sefydliadau eraill. Cysylltwch â ni os yw'r hawl yma yn berthnasol i chi.

Sut i Wneud Cwyn

Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, os ydych yn anfodlon gyda'r ffordd yr ydym wedi defnyddio eich gwybodaeth bersonol. I roi gwybod i ni am bryder, cysylltwch â'n SLlG,

Claire Starmore, Rheolwr Fuses, Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Raglan, 6-8 Clôs William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbran NP44 3AB
Ffôn 01633 838 516, ebost claire.starmore@waleschc.org.uk os gwelwch yn dda.

Mae gennych yr hawl hefyd i wneud cwyn wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth ar eu gwefan (www.ico.org.uk) am sut i roi gwybod am bryder.

Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 23 Hydref 2018. Yr ydym yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd, a gallwn ei newid o dro i dro, drwy ddiweddaru'r dudalen hon, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith a / neu ein hymarferion preifatrwydd. Byddwn yn eich annog i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am unrhyw newidiadau yn rheolaidd.